

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Wrecsam

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Wrecsam i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Wrecsam 9 o'r 12 hawl graidd yn llawn, 2 bodlonodd yn rhannol, a methodd â bodloni 1.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Wrecsam 4 yn llawn, cyflawnodd 3 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2. Gellir priodoli dirywiad perfformiad Wrecsam drwy gydol y fframwaith i raddau helaeth i effaith toriadau yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth a chyfnod parhaus o ansicrwydd ac adolygu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai agweddau ar ddefnydd a'r oriau agor yn 2019/20 yn ddatblygiadau cadarnhaol, fel y mae cael gwared ar y cynllun peilot ar gyfer dirwyon. Bwriad yr adolygiad o wasanaeth llyfrgelloedd Wrecsam oedd galluogi'r gwasanaeth i weithredu mewn modd mwy deinamig a diwallu anghenion ei gymunedau yn well. Bydd yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen yn awr yn lleihau cyrhaeddiad ac effaith gwasanaeth llyfrgelloedd Wrecsam. Mae problemau mewn perthynas â'r capasiti i gynnal y lefelau gwasanaeth cyfredol yn parhau i beri pryder, gyda nifer y staff yn cael ei leihau ymhellach yn 2019/20. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i allu diwallu anghenion defnyddwyr mewn amgylchedd sy'n parhau'n llym.

- Yn anffodus, methodd Wrecsam â chynnal arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant yn ystod y fframwaith, ac mae'n un o dri awdurdod yn unig sydd heb wneud hyn.
- Fel gwasanaethau eraill, mae Wrecsam wedi gweld cynnydd o 29% yn nifer y lawrlwythiadau electronig er 2017/18. Mae hefyd wedi gweld cynnydd braf ei weld mewn benthyciadau llyfrau oedolion, yn wahanol i'r patrwm ehangach.
- Mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi cynyddu 52% er 2017/18, ac mae targedau yn y maes hwn (DA 10) yn parhau i gael eu cyflawni. O ganlyniad i hyn gwelwyd cynnydd mewn benthyciadau Cymraeg, ac mae hynny'n cael ei groesawu.
- Fel y nodwyd yn 2018/19, mae nifer y staff wedi'i gwtogi eto yn 2019/20, â gostyngiad yng nghyfanswm y staff, ynghyd a gostyngiad yn y lefelau staffio proffesiynol. Nid yw Wrecsam yn cyflawni yr un o'r targedau staffio.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn

unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Wrecsam yn cyflawni 9 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn cyflawni 2 yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1. Gan nad oes darpariaeth Wi-Fi ar gael ym mhob man gwasanaeth llyfrgell, mae HG 7 yn parhau i gael ei chyflawni'n rhannol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflawni HG 11 sy'n ymwneud ag ymgynghori â defnyddwyr yn rhannol gan nad yw wedi cynnal arolwg plant. Nododd y gwasanaeth gynlluniau i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth llyfrgell yn 2017/18, ond nid yw wedi'i rhoi ar waith eto (HG 12).

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Wrecsam, yn cyflawni 4 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 3 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n rhannol
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	x	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae Wrecsam wedi cynnal ei berfformiad drwy gydol 2019/20, ac ni fu unrhyw welliannau arwyddocaol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Wrecsam arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2017. Ni chynhaliwyd arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant yn ystod y fframwaith hwn, ac mae'n un o dri awdurdod yn unig sydd heb wneud hyn.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	80%	15/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Wrecsam un astudiaeth achos o'r fath:

- Amser i gofio – Prosiect i helpu unigolion sydd â dementia a'u gofalwyr. Llwyddodd llyfrgell Rhiwabon i gael grant i sefydlu casgliad arbennig o lyfrau neu eitemau i greu blychau cofio. Cynhelir sesiwn grŵp yn y llyfrgell bob pythefnos, ac mae rhai aelodau o'r llyfrgell yn dod iddynt yn rheolaidd gan eu bod yn eu helpu i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a chyfarfod pobl newydd.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlono. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Wrecsam, ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu

cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b		25%	75%	94%	dd/b
c) iechyd a lles	62%	11/19	38%	69%	96%	62%
d) lle diogel a chroesawgar	90%	18/19	90%	96%	100%	90%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=7/18	78%	91%	99%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	93%	17/18	88%	97%	100%	93%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	74%	15/17	65%	85%	99%	74%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	93%	17/18	85%	96%	100%	93%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b	dd/b	8.0	9.1	9.5	dd/b
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	2,498	21/22	2429	3987	6874	2,722
b) rhith-ymweliadau fesul pen	247	20/22	239	913	2131	355
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	122	16/22	78	145	244	127
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²						
	862	5/22	311	680	1469	752
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	10	9/22	4	9	14	14
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	31%	7/22	14%	30%	64%	17%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,188	12/22	£7,260	£12,448	£23,333	£9,967
b) % ar staff	49%	=20/22	48%	61%	76%	64%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=6/22	5%	13%	22%	14%
% ar offer ac adeiladau	21%	=2/22	0%	8%	28%	4%
% ar gostau gweithredol eraill	17%	10/22	1%	18%	35%	19%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£350	11/22	£0	£1,567	£13,027	£373
DA 16 – Orlau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	4.33%	21/22	0.00%	1.07%	5.41%	2.42%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Wrecsam arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn ystod mis Tachwedd 2017, ond nid yw wedi cynnal arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant yn y chweched fframwaith. Mae iechyd a llesiant yn parhau i gael ei gefnogi'n llawn, ac mae llyfrgelloedd yn Wrecsam yn cyflwyno digwyddiadau sy'n hybu llesiant emosiynol. Mae'r targed yma (DA 4) yn parhau i gael ei gyflawni. Er hyn, mae Wrecsam yn nodi nad oes partneriaethau gwybodaeth iechyd yn bodoli.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Wrecsam yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth (DA 7). Mae ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng 7.2% yn Wrecsam er 2018/19, gostyngiad a welwyd ledled Cymru, ond mae Wrecsam wedi gweld cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion. Fel y gwasanaethau eraill, mae Wrecsam wedi gweld cynnydd o 29% yn nifer y lawrlwythiadau electronig er 2017/18. Er hyn, mae perfformiadau at ei gilydd yn is na'r canolrif.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae Wrecsam yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20, er bod y ffigur ar gyfer caffaeliadau cyffredinol wedi codi. Mae canran y gwariant ar ddeunyddiau i blant wedi gostwng ychydig, ond mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi codi 52% er 2017/18, ac mae'r targed yn y maes hwn (DA 10) yn parhau i gael ei gyflawni. O ganlyniad, mae benthyciadau llyfrau a gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn Wrecsam yn uwch na'r canolrif yng Nghymru o ran deunyddiau Cymraeg, ac mae benthyciadau llyfrau Cymraeg yn y chwarter uchaf fesul pen o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg. Yn 2019/20 cynhaliwyd adolygiad o'r ddarpariaeth TGCh yn Wrecsam, ac o ganlyniad mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi'i lleihau i adlewyrchu'r defnydd gan gwsmeriaid. Mae darpariaeth Wrecsam yn y maes hwn yn unol â gwasanaethau eraill yng Nghymru. Mae Wrecsam yn un o chwe gwasanaeth yng Nghymru nad ydynt yn cyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12). Nid yw targedau yn y maes hwn wedi'u cyflawni er 2018/19, ac mae'r lefelau wedi aros yn sefydlog ers hynny.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Fel y nodwyd yn 2018/19, mae nifer y staff wedi'i ostwng eto yn 2019/20, â gostyngiad yng nghyfanswm y staff, ynghyd â gostyngiad mewn lefelau staffio proffesiynol. Drwy gydol y fframwaith mae Wrecsam wedi cofnodi lefelau staffio yn y chwarter isaf yng Nghymru, ac mae'r sefyllfa wedi parhau i ddirywio yn 2019/20. Nodir y gallai pwysau cyllidebol effeithio ar staffio yn 2020/21.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu er 2018/19, ac mae gwariant ar staffio erbyn hyn ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif. Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu ychydig, ond nid yw'r targed (DA 16) yn cael ei gyflawni, fel mewn chwe gwasanaeth arall yng Nghymru. Mae darparu gwasanaeth yn parhau i gael ei ymestyn drwy ddarparu oriau di-staff mewn un gangen.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae naratif Wreccsam yn dangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at raglen Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau iechyd a llesiant mewn llyfrgelloedd, â staff yn dod yn ffrindiau dementia (*Iach ac Egniol*). Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig grwpiau amrywiol i gefnogi dysgu gydol oes (*Ffyniannus a Diogel*). Meysydd eraill a nodwyd yw *Uchelgeisiol ac yn Dysgu*, gan fod Wreccsam yn cefnogi llythrennedd plant ifanc drwy grŵp stori dwyieithog, ac *Unedig a Chysylltiedig* drwy grŵp darllen Cymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Wreccsam yn nodi bod angen toriad o £100,000 yn y gyllideb yn 2020/21, a thoriad arall o £100,000 yn 2021/22. Bydd gweithredu yn yr amgylchedd hwn yn dipyn o her, a bydd yn anodd iawn cyflawni unrhyw waith datblygu sydd wedi'i gynllunio yn y dyfodol. O ganlyniad i effaith Covid-19, mae'r gwasanaeth wedi treialu aelodaeth awtomataidd o lyfrgell, adnewyddu eitemau llyfrgell yn awtomataidd, gwasanaeth 'clicio a chasglu' a dileu dirwyon llyfrgell. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan o'r ddarpariaeth safonol ar gyfer Wreccsam erbyn hyn, a byddant yn sicr yn gwella ymgysylltiad â chymunedau lleol. Drwy gydol 2020/21, bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ddigidol a darparu gwasanaethau sydd ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod o'r wythnos.

6 Casgliad

Gellir priodoli dirywiad perfformiad Wreccsam drwy gydol y fframwaith i raddau helaeth i effaith toriadau yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth a chyfnod parhaus o ansicrwydd ac adolygu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai agweddau ar ddefnydd a'r oriau agor yn 2019/20 yn datblygiadau cadarnhaol, fel y mae cael gwared ar y cynllun peilot ar gyfer dirwyon. Bwriad yr adolygiad o wasanaeth llyfrgelloedd Wreccsam oedd galluogi'r gwasanaeth i weithredu mewn modd mwy deinamig a diwallu anghenion ei gymunedau yn well. Bydd yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen yn awr yn lleihau cyrhaeddiad ac effaith gwasanaeth llyfrgelloedd Wreccsam. Mae problemau mewn perthynas â'r capasiti i gynnal y lefelau gwasanaeth cyfredol yn parhau i beri pryder, gyda nifer y staff yn cael ei leihau ymhellach yn 2019/20. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i allu diwallu anghenion defnyddwyr mewn amgylchedd sy'n parhau'n llym.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgriadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgriadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.